



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales



Hyfforddiant Addasu i Newid
Hinsawd a Chyðnerthedd

Modiwl 6: Ystyriaethau Ariannol a Chyfreithiol

Manteision addasu i'r hinsawd ar gyfer proffidioldeb,
yswiriant a sicrhau cyllið

Tabl Cynnwys

Cynnwys	2
Byrfoddau	3
Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd	4
Sut i ddefnyddio'r modiwlau hyfforddiant	5
Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi, a'r canllawiau cam wrth gam	6
Ystyriaethau Ariannol a Chyfreithiol	7
Risgiau ariannol newid hinsawdd	7
Effeithiau ariannol posibl oherwydd newid hinsawdd	8
Ffocws ar: Yswiriant	9
Ffocws ar: Asedau Darfodol oherwydd yr Hinsawdd	18
Dod o hyd i gyllid ar gyfer addasiadau hinsawdd	19
Cynlluniau Parhad Busnes	20
Camau eich cynllun parhad busnes	21
Rhwymedigaethau Cyfreithiol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd	25
Dyletswyddau cyfarwyddwyr	25
Y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith	26
Eich honiadau o ran cynnyrch a marchnata	26
Perthnasoedd cytundebol	27
Mesurau diogelu ariannol yn erbyn ariannol "gwyreddgalchu"	29
Sut gallai deddfwriaeth newid hinsawdd esblygu	29
Yn Dod Nesaf: Modiwl 7 Staff a Darparwyr Gwasanaethau	30
Cyfeiriadau	31

Tonnau enfawr yn taro'r morglawdd ym Mhorthcawl, Cymru, wrth i Storm Brendan ddod â gwyntoedd cryfion o hyd at 80mya ym mis Ionawr 2020. Awdur: Ben Birchall – Ffynhonnell: Alamy

Y ddelwedd hon:
Awdur: Volodymyr / stock.adobe.com


Byrfoddau

Gweler rhestr o fyrfoddau a ddefnyddir yn yr hyfforddiant hwn isod:

AHDB	Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
CCACCP	Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol
CCJ	Dyfarniad Llys Sirol
CCRA _s	Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd
CMA	Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y Deyrnas Unedig
COSHH	Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
CO ₂	Carbon Deuocsid
C3S	Gwasanaeth Newid Hinsawdd Copernicus yr Undeb Ewropeaidd
ENA	Cymdeithas Rhwydwaith Ynni
EPD	Datblygu Cynnyrch Presennol
GDPR	Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data
GHG	Nwy Tŷ Gwydr
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol
ICT	Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu
INNS	Rhywogaethau Anfroddorol Ymledol
IPCC	Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd
ISSB	Bwrdd Safonau Cynaliadwyedd Rhyngwladol
MPRN	Rhifau Cyfeirnod Pwynt Mesurydd
NPD	Datblygu Cynnyrch Newydd
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
ONS	Swyddfa Ystadegau Gwladol y Deyrnas Unedig
RCP _s	Llwybrau Crynadau Cynrychioliadol
TCFD	Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd
UK SDS	Safonau Datgelu Cynaliadwyedd y Deyrnas Unedig
UKCCC	Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig
UNEP	Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig
WMO	Sefydliad Meteorolegol y Byd
WRAP	Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau

Croeso i'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chyðnerthedd

Nod y modiwlau hyfforddiant yw annog busnesau i ddod yn ymwybodol o'r hinsawdd yn eu gweithrediadau bob dydd trwy ddarparu cymorth ymarferol i feithrin y sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen i ddelio'n llwyddiannus â digwyddiadau anrhagweladwy.



Trwy gydnabod y risgiau a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil newid hinsawdd a gwneud addasiadau tra ystyriol, gall eich busnes gryfhau ei gydnerthedd i ddelio â siociau o fewn eich cadwyni cyflenwi, lleihau neu osgoi effeithiau negyddol a manteisio ar y cyfleoedd a allai godi.

Dyma'r chweched o 8 modiwl rydyn ni'n gobeithio y byddwch chi'n eu cael yn graff ac yn ddefnyddiol.

Sut i ddefnyddio'r modiwl hyfforddiant hwn

Cynlluniwyd y modiwlau hyfforddiant fel canllawiau addysgiadol i'ch helpu i asesu'ch busnes yng nghydestun newid hinsawdd.

Er bod pob menter bwyd a diod yn unigryw, rydym yn gobeithio trwy ddewis a gweithredu ar y modiwlau sydd fwyaf perthnasol i'ch busnes chi, y byddwch yn creu fframwaith i benderfynu ar yr addasiadau sydd eu hangen i wneud eich busnes yn fwy cydnerth i newid hinsawdd, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r modiwlau hyfforddiant wedi'u strwythuro yn y ffordd ganlynol:

Modiwl 1: Cyflwyniad i Addasu i Newid Hinsawdd

Module 2: Cyflwyno Risg a Rheoli Newid ac ymagwedd CCACCP

(Dadansoddiad Ymwybodol o'r Hinsawdd a Phwyntiau Hinsawdd Critigol)

Modiwl 3: Safleoedd a Mynediad

Modiwl 4: Gweithgynhyrchu a Chynhyrchu Bwyd

Modiwl 5: Cadwyni Cyflenwi a Mewnbynnau Busnes

Modiwl 6: Ystyriaethau Cyllid a Chyfreithiol

Modiwl 7: Staff a Darparwyr Gwasanaethau

Modiwl 8: Cwsmeriaid a Defnyddwyr


Trwy gydol y modiwlau, byddwch yn dod o hyd i enghreifftiau, cyfeiriadau a dolenni at restrau gwirio a thempledi golygadwy i'ch helpu i asesu a gweithredu'r newidiadau dymunol yn eich busnes.

Sut i gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi a'r canllawiau cam wrth gam

Trwy glicio ar y dolenni a ddangosir trwy gydol y modiwlau hyfforddiant, gallwch gael mynediad at y rhestrau gwirio, y templedi neu'r canllawiau cam wrth gam o'ch dewis chi.

Bydd y ddolen yn mynd â chi at leoliad Dropbox lle bydd gennych chi nifer o ddewisiadau:

1. Os oes gennych chi gyfrif Dropbox eisoes, gallwch chi fewngofnodi i hwn.
2. Os ydych chi'n dymuno creu cyfrif Dropbox, mae'r opsiwn hwn ar gael i chi.
3. Os ydych chi'n syml yn dymuno cael mynediad at y ddogfen, cliciwch ar y saeth Lawrlwytho i'w lawrlwytho i'ch dyfais.



Ystyriaethau Ariannol a Chyfreithiol

Eich cyllid yw enaid eich busnes, gydag arian sy'n dod i mewn yn ariannu treuliau sy'n galluogi gweithgareddau ar draws eich menter. Gall ymyriadau i'r cylchrediad hwn, fel digwyddiadau hinsawdd annisgwyl, gael effaith fawr ar les a hyfywedd eich cwmni.

Mae'r effaith fasnachol negyddol a gafodd pandemig Covid-19, gyda'i gyfnodau clo gorfodol a'r dyddiadau gorffen ansicr, ar fusnesau bwyd a diod, yn enghraifft ddifrifol ac yn ein hatgoffa bod gan ddigwyddiadau hinsawdd annisgwyl y potensial i wneud difrod ar barhad eich busnes a'ch sicrwydd ariannol.

Wrth i'r brys i fynd i'r afael â newid hinsawdd gael ei ddeall yn fwy, mae'r gorchmynion cyfreithiol ar fusnesau'n cynyddu, hefyd. Efallai y bydd angen i'ch busnes addasu a chwilio am ffyrdd newydd o weithio sy'n ymwybodol o'r hinsawdd a fydd yn eich galluogi i fodloni eich rhwymedigaethau cyfreithiol nawr ac yn y dyfodol yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.


Risgiau ariannol newid hinsawdd

Mae Banc Lloegr yn rhoi risgiau sefydlogrwydd ariannol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd mewn tri chategori¹. Mae risgiau ffisegol yn cynyddu oherwydd amlder a difrifoldeb cynyddol digwyddiadau hinsawdd annisgwyl; risgiau trawsnewidiol yw'r rhai sy'n gysylltiedig â chostau symud i ddyfodol mwy cynaliadwy, carbon is; ac mae atebolrwyddau'n codi o bobl neu fusnesau sy'n ceisio iawndal ar gyfer colledion y gallent fod wedi'u dioddef o risgiau ffisegol neu drawsnewidiol newid hinsawdd.



Effeithiau ariannol posibl risgiau hinsawdd

Gadewch i ni edrych yn fanylach ar rai o'r risgiau mwyaf sylweddol hyn i'ch busnes.



Llif arian

Efallai y byddwch yn talu eich staff a'ch cyflenwyr o hyd, hyd yn oed os na allwch gyflawni archebion cwsmeriaid ar ôl i'ch safle cynhyrchu neu ran hanfodol o'ch cadwyn gyflenwi gael ei (h) effeithio gan ddigwyddiad tywydd annisgwyl.

Bydd pa mor gyflym y gallwch adfer yn ôl i weithredu'n llawn yn dibynnu ar natur y digwyddiad hinsawdd a pha mor ddifrifol y mae wedi effeithio arnoch, ynghyd â pha mor dda yr oeddech wedi paratoi ar gyfer digwyddiad tebyg.

Os yw arian yn llifo o'ch busnes ynghynt nag y gallwch ei ailgyflenwi, bydd hyn yn amlwg yn cael effaith negyddol ar eich llif arian.

Felly, hyd yn oed pan fyddwch yn gallu cynhyrchu unwaith eto, efallai na fyddwch mewn sefyllfa i brynu'r deunyddiau, talu'r staff nac ariannu popeth arall sydd ei angen arnoch i weithredu unwaith eto.

Addasiadau posibl

Bydd eich addasiadau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, boed yn uwchraddio adeiladau, trefnu cyflenwyr amgen neu unrhyw gamau eraill rydych yn eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r hyfforddiant hwn, yn cynyddu eich gallu i adfer ynghynt ar ôl digwyddiad tywydd annisgwyl. Bydd asesu eich risgiau'n ofalus yn eich galluogi i wario arian yn ddoeth ar fesurau ataliol neu roi cynlluniau wrth gefn effeithiol ar waith.

Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd o bandemig Covid-19 oedd bod yn barod â gwybodaeth ariannol berthnasol a chyfredol am eich busnes felly, pe byddai galwadau ariannu brys yn cael eu hagog, gallwch ymateb yn gyflym i gyfleoedd i fanteisio ar gyfalaf gweithio sydd ei angen yn fawr.

Bydd angen i chi allu dangos yn gyflym ac yn gymhellol eich bod yn fusnes cadarn, yn y bôn, sydd â hanes masnachu cryf cyn i'r argyfwng hinsawdd hwn effeithio arnoch. Felly, gallai bod â chyfrifon rheoli, rhagolygon a modelau ariannol cyfredol sy'n dangos sut gall eich busnes adfer eich helpu i gael cyfalaf gweithio byrdymor i ddechrau gweithredu eto'n gyflym.

Os bydd y digwyddiad hinsawdd wedi achosi difrod eang ar draws eich rhanbarth, bydd llawer o sefydliadau ac unigolion yn cystadlu ar yr un adeg am adnoddau a allai fod yn gyfyngedig i'w galluogi i adfer. Po gyflymaf y bydd gennych yr arian yn ei le i dalu am atgyweiriadau, offer newydd a stoc y bu'n rhaid i chi eu dileu neu wasanaethau hylendid i gael gwared ar halogiad, y nes y byddwch at flaen y ciw, gan alluogi i'ch busnes adfer ynghynt. Bydd gallu adfer ynghynt nag unrhyw un o'ch cystadleuwyr y mae'r digwyddiad hinsawdd hefyd wedi effeithio arnynt yn creu mantais gystadleuol.

Mae adolygu eich yswiriant busnes a dewis yswiriant o'r math a'r ehangder a fydd yn bodloni eich anghenion, ar sail eich asesiadau risg a'r cynlluniau addasu, yn wirioneddol bwysig ac yn werth chweil. Rhowch sylw arbennig i'r hyn sydd wedi'i gynnwys pe byddai digwyddiad yn gysylltiedig â'r tywydd a gwnewch yn siŵr eich bod yn fodlon â'r telerau ac amodau. Gweler yr adran "Ffocws ar: Yswiriant" isod am ragor o wybodaeth.

Fel yr amlinellwyd ym Modiwl 3, bydd cofnodi, tynnu lluniau a blaenoriaethu eich holl asedau hanfodol yn eich cofrestr asedau, a'i chadw mewn lle diogel a hygyrch, yn golygu bod gennych wybodaeth gynhwysfawr a chyfredol i'w rhoi i'ch yswirwyr. Gallai hyn gyflymu'r broses hawlio i ddychwelyd arian sydd ei angen yn fawr i'ch coffrau ynghynt.

Gwnewch yn siŵr fod gennych restr gyfoes o'ch dyledwyr ar gael yn rhwydd, a fydd yn eich galluogi i gysylltu â nhw i ofyn am daliad, gan wella'ch sefyllfa o ran arian sy'n dod i mewn.

Byddwch yn barod i gysylltu â'ch credydwyr i ail-drafod telerau credyd; efallai y byddant yn fodlon ymestyn cyfnodau talu os yw hynny'n golygu eu bod yn fwy hyderus y byddant yn cael taliad, maes o law.

Ffocws ar: Yswiriant

Gallai'r cynnydd o ran amllder a dwyster peryglon sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd gyfyngu ar argaeledd yswiriant fforddiadwy yn y dyfodol, felly gall cymryd camau addasu i'r hinsawdd i leihau eich risg helpu i sicrhau argaeledd a fforddiadwyedd yswiriant.

Adolygwch yr holl fathau o yswiriant

a allai fod gan eich busnes o

safbwynt digwyddiad hinsawdd:

Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

Yswiriant atebolrwydd cyflogwr

Yswiriant cynnyrch

Yswiriant adeiladau a chynnwys

Yswiriant peiriannau neu offer

Yswiriant tarfu ar fusnes

Yswiriant nwyddau ar daith

Yswiriant cerbydau

Gallai polisiâu sydd ar gael gefnogi adferiad cydnerth a'ch annog chi, fel deiliad y polisi, i leihau eich risgiau. Er enghraifft, ar ôl llifogydd, dylai adferiad ganolbwyntio ar ailadeiladu neu atgyweirio i safon uwch o gydnerthedd yn erbyn llifogydd yn y dyfodol, fel symud trydan yn uwch i fyny neu osod amddiffynfeydd parhaol rhag llifogydd. Os ydych chi'n gosod cynnyrch i wrthsefyll llifogydd, gwiriwch a yw wedi'i brofi yn ôl safonau'r diwydiant trwy chwilio am symbol Nod Barcud neu achrediad cyfatebol. Fel arfer, mae yswirwyr yn ffafrio cynhyrchion â nod barcud. Efallai y dylech ystyried a allech chi wneud rhai buddsoddiadau ar y cyd â busnesau cyfagos i leihau eich risg a rhannu costau, er enghraifft rhwystrau llifogydd dros dro.

Mae'n hanfodol eich bod yn gwirio eich yswiriant ac yn deall pa ddigwyddiadau yn gysylltiedig â'r hinsawdd yr ydych wedi'ch yswirio ar eu cyfer. Os ydych yn ansicr ynghylch unrhyw bwynt, gwiriwch gyda'ch cwmni yswiriant neu, os ydych wedi'ch yswirio trwy ffordd arall, fel eich landlord, gwiriwch y manylion gyda nhw.

Mae templed y gellir ei olygu ar gael i'ch helpu â'r adolygiad hwn.

[Cliciwch yma am dempled Adolygu Yswiriant y gellir ei olygu](#)

Premiymau a lefelau taliadau ychwanegol

A yw eich premiymau'n awgrymu bod eich cwmni yswiriant o'r farn eich bod mewn perygl uchel? A allech chi gymharu eich premiymau â rhai busnesau eraill yn yr ardal? Gallai rhai polisïau yswiriant gymhwyso gostyngiadau i'ch premiymau os ydych yn fodlon derbyn lefel "taliadau ychwanegol". Efallai y byddwch yn fodlon derbyn risgiau a chostau difrod o lifogydd sy'n cyrraedd lefel benodol, ond bydd angen yswiriant arnoch os byddant yn mynd y tu hwnt i'r lefel honno. Trafodwch yr opsiynau hyn â'ch brocer yswiriant.

Darllenwch y print mân

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y 'print mân' yn eich polisi yswiriant a chadarnhewch eich bod wedi'ch yswirio ar gyfer yr holl risgiau rydych wedi'u nodi, fel llifogydd, difrod storm, tân neu fellt.

Mae hyn yn berthnasol i'ch yswiriant tarfu ar fusnes yn benodol. Bydd rhai polisïau'n talu am ddifrod i'ch safle a achoswyd gan lifogydd, stormydd ac ati, tra gall eraill dalu am darfu ar fusnes o ganlyniad i bobl yn methu cyrraedd eich safle busnes neu golli busnes oherwydd difrod ar safle cyflenwr neu gwsmer. Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd o bandemig Covid-19 oedd y diffyg eglurder a sicrwydd ynghylch polisïau yswiriant tarfu ar fusnes cymhleth, gan arwain at achos prawf yn y Goruchaf Lys.

Darganfyddwch a yw'r polisi yswiriant yn disodli hen bethau am bethau newydd ac a oes ganddo derfyn ar atgyweiriadau neu a yw'n caniatáu i chi ddod o hyd i safle amgen os yw'r difrod yn ddifrifol ac y byddai'n cymryd cyfnod hir i aildddechrau cynhyrchu mewn modd sy'n ddiogel ar gyfer bwyd.



Prisiwch eich asedau'n ddigonol

Peidiwch â gwneud y camgymeriad o danamcangyfrif gwerth eich cynnwys. Bydd creu eich cofrestr asedau, sy'n rhestru eich holl eitemau allweddol, yn helpu â hawliadau yswiriant yn y dyfodol. Trwy dynnu lluniau o'ch asedau cyn digwyddiad, byddech wedyn yn gallu tynnu rhagor o luniau o unrhyw ddifrod y byddwch yn ei ddioddef, gan greu corff o dystiolaeth gadarn i'w roi i'ch cwmni yswiriant.

Defnyddiwch eich cofrestr asedau i wneud yn siŵr fod eich yswiriant yn adlewyrchu gwerth cyfredol eich asedau a'ch busnes. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os yw eich busnes wedi tyfu'n gyflym.

Cofiwch wirio eich yswiriant cerbydau hefyd a byddwch yn glir ynghylch yr hyn y mae'ch polisi yn ei ystyried yn ddifrod llifogydd "osgoadwy" ac "anorfod".

Byddwch yn realistig ynghylch costau adfer

Yn benodol, yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod, mae diogelwch bwyd bob amser ar flaen ein meddyliau. Gallai digwyddiadau fel llifogydd neu dân arwain at risgiau halogiad difrifol yn eich ardaloedd cynhyrchu. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi roi mesurau hylendid llym ar waith i sicrhau bod yr holl risgiau halogiad wedi'u datrys. Bydd angen sicrwydd llawn arnoch hefyd fod elfennau eraill o ddiogelwch bwyd, fel rheoli plâu, yn gweithredu'n gywir er mwyn i chi allu dychwelyd i'ch safonau uchel arferol o ddiogelwch bwyd.

Gall gymryd mwy o amser nad ydych chi'n meddwl i allu "rhyddhau eich safle'n gadarnhaol" i gynhyrchu unwaith eto ar ôl digwyddiad tywydd annisgwyl, felly gwiriwch a yw eich polisi'n cynnwys yswiriant tarfu ar fusnes a fyddai'n eich diogelu rhag colli incwm yn ystod cyfnodau pan na allwch gyflawni eich busnes yn ôl yr arfer oherwydd digwyddiad hinsawdd annisgwyl. Os nad yw hyn wedi'i gynnwys, efallai yr hoffech ystyried a ddylech ychwanegu yswiriant ychwanegol.

Yswiriant parametrig

Mae rhai cwmnïau yswiriant yn edrych yn fwyfwy ar 'yswiriant parametrig' fel ffordd o ddarparu yswiriant fforddiadwy ar gyfer difrod sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'r math hwn o yswiriant wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth y bydd y cwsmer yn cael taliad os bydd trothwy penodol, wedi'i bennu ymlaen llaw, yn cael ei gyrraedd. Gall yswiriant parametrig gydnabod a gwobrwyo deiliaid polisiâu sy'n buddsoddi mewn diogelu eu heiddo, hefyd.

Er enghraifft, mewn sefyllfa llifogydd, gallai'r trothwy ar gyfer y polisi parametrig fod pan fydd lefel y dŵr yn yr eiddo dan sylw yn cyrraedd lefel benodol. Bydd swm yr hawliad eisoes wedi'i benderfynu gan ddefnyddio dull gosodedig o gyfrifo colledion, yn hytrach nag yn seiliedig ar asesiad o'r golled neu'r difrod gwirioneddol sydd wedi digwydd. Gall manteision i ddeiliad y polisi gynnwys setlo hawliadau ynghynt, tra bydd yr yswiriwr yn arbed arian trwy leihau costau yn y broses asesu colledion.

Rhannu eich addasiadau hinsawdd

Pan fyddwch yn rhoi unrhyw fesurau addasu i'r hinsawdd ar waith, rhowch wybod i'ch cwmni yswiriant. Mae rhai'n cynnig cymhellion yn gysylltiedig â phremiwm i annog deiliaid polisiâu i fuddsoddi mewn mesurau cydnherthedd yn erbyn yr hinsawdd.

Cronfeydd Wrth Gefn

Oes gennych chi ddigon o gronfeydd wrth gefn i atgyweirio ac ailadeiladu ar gyfer adferiad?

A fyddai eich cynlluniau buddsoddi yn cael eu tarfu pe bai eich cronfeydd wrth gefn yn cael eu disbyddu ar ôl digwyddiad hinsawdd?



Cronfeydd wrth gefn

Os nad yw eich yswiriant yn ddigonol i dalu costau unrhyw ddigwyddiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, efallai y bydd angen i chi ddibynnu ar eich cronfeydd wrth gefn i dalu i adfer ar ôl difrod.

Addasiadau posibl

Yn rhan o'ch ymagwedd tuag at eich busnes sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, efallai yr hoffech ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gennych ac, ar ôl ystyried cyllid arall sydd ar gael, pa mor ddigonol y byddai'r rhain er mwyn i chi allu gweithredu'n llawn unwaith eto yn yr amser gorau posibl.

Efallai y buoch yn cronni'r cronfeydd wrth gefn hwn i dalu am fuddsoddiadau yn y dyfodol mewn gwelliannau rydych wedi'u cynllunio. Felly, gall gorfod eu gwario i adfer i'ch sefyllfa bresennol ar ôl digwyddiad hinsawdd annisgwyl ymddangos fel ergyd.


Fodd bynnag, gall fod yn gyfle hefyd i ailadeiladu â thechnoleg newydd, cynlluniau cynhyrchu newydd neu gydrannau hanfodol eraill o'ch gweithrediadau sy'n eich "gorlamu" ymlaen i sefyllfa fwy effeithlon a chystadleuol nag o'r blaen.

Am y rheswm hwn, mae'n arfer da cadw i fyny ag arloesiadau mewn offer, technoleg, prosesau ac arferion rheoli yn eich sector diwydiant ac yn ehangach.

Trwy gynnwys sganio'r gorwel yn eich arferion gwaith o ddydd i ddydd, byddwch yn gwybod beth sydd ar gael a chan bwyr y gellir ei gael. Byddai deall effeithiolrwydd, cost a'r enillion tebygol y gellir eu cyflawni ar unrhyw fuddsoddiad yn eich galluogi i symud yn gyflym ac elwa'n wirioneddol ar sefyllfa a fyddai'n negyddol, fel arall.



Efallai y bydd angen i chi ystyried mynd i ddyled i'ch helpu i adfer neu wneud gwaith adferol. Bydd rhagolygon trylwyr a manwl sydd wedi'u modelu i gwmpasu gwahanol senarios yn eich helpu i sicrhau cyllid/buddsoddiad hanfodol.



Sut gall eich ymagwedd sy'n ddoeth o ran yr hinsawdd tuag at risgiau ac addasiadau ddiogelu a thyfu eich sylfaen cwsmeriaid?

Cwsmeriaid masnach a defnyddwyr

Mae eich cwsmeriaid masnach yn dibynnu ar eich busnes i ddarparu stoc iddynt i'w werthu, sy'n eu galluogi i gynhyrchu eu hincwm.

Felly, os byddwch yn dioddef sioc yn gysylltiedig â'r hinsawdd ac yn methu cyflawni archebion, efallai y byddant yn ymateb i gael eu siomi trwy fynd â'u busnes rywle arall, i gwmni sydd â chynllunio brys ac wrth gefn gwell.


Yn yr un modd, os ydych yn gwneud addasiadau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i'ch busnes yn rhagweithiol, gall hyn greu mantais gystadleuol a meithrin enw da ymhlith eich cwsmeriaid.

Addasiadau posibl

Byddwn yn edrych yn fanylach ar oblygiadau risgiau hinsawdd, addasu a meithrin cydnherthedd ar gyfer perthnasoedd â chwsmeriaid ym Modiwl 8.



Cafodd danfoniadau eu rhwystro pan roedd coeden a oedd wedi cwmpo yn rhwystro ffordd ym Mhontypridd ar ôl Storm Darragh - Rhagfyr 2024 Awdur: PA Images - Ffynhonnell: Alamy



A ydych yn addasu i risgiau hinsawdd er mwyn osgoi cael eich gwrthod am gyllid neu osgoi cyllid / yswiriant drytach?

Codi cyllid a pharhau i fod yn yswiriadwy

Rydym mewn oes o 'gyllid gwyrdd' sydd â ffocws cynyddol ar "fuddsoddi gwyrdd" a dod ag elfen sy'n ymwybodol o'r hinsawdd i'ch penderfyniadau buddsoddi, a gall addasu i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fod yn ffordd i ddiogelu eich buddsoddiadau at y dyfodol.

Gallai ystyried pa mor ddigonol y budd unrhyw fuddsoddiad sydd gennych mewn golwg yn eich diogelu rhag risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y dyfodol, wrth gyfrannu at liniaru newid hinsawdd, eich osgoi rhag "rhwymu" mwy o risg hinsawdd a bod â'r hyn a elwir yn "asedau darfodol" yn y pen draw. Gweler yr adran Ffocws ar: Asedau darfodol isod am fwy o wybodaeth.

Yng Nghymru, mae Banc Datblygu Cymru yn cynnig y Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd² ac mae llawer o fanciau'r stryd fawr a benthycwyr eraill yn cynnig cyllid gwyrdd sydd â'r nod o gefnogi'r daith i sero net.

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gwmnïau preifat a phartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig (LLPau) mawr yn y DU, sydd â throsiant blynyddol o fwy na £500 miliwn ac o leiaf 500 o gyflogeion, wneud datgeliadau ariannol gorfodol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar sail argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD), dan Ddeddf Cwmnïau'r DU³. Mae hyn yn cynnwys banciau a sefydliadau ariannol eraill ac felly mae'n dylanwadu ar eu polisiau benthycu.

Addasiadau posibl

Yn unol â phob cais am gyllid, mae cynnal systemau gwybodaeth rheoli a chyfrifon rheoli cyfredol a chywir, ynghyd â rhagolygon a llifoedd arian parod wedi'u modelu, yn gwneud gwahaniaeth mawr o ran eich helpu i sicrhau cyllid.

Byddwch yn glir ynghylch sut bydd y cais am gyllid yn cefnogi buddsoddiad sy'n ymwybodol o'r hinsawdd sy'n helpu'r benthyciwr i gyflawni ei ymrwymadau cynaliadwyedd ac yn cyflawni meini prawf cymhwysedd y cynllun, gan y bydd hyn yn helpu i wella'r tebygolrwydd o gais llwyddiannus am gyllid.

Bydd hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer unrhyw grantiau neu fenthyciadau a ariennir y gyhoeddus y gallech fod eisiau gwneud cais amdanynt, gan ei fod yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru roi cynaliadwyedd wrth wraidd eu hagendâu a'u penderfyniadau.



Diogelu eich statws credyd

Mae eich statws credyd yn rhan hanfodol o'ch gallu i fasnachu ac mae angen i chi ddiogelu eich sgôr credyd er mwyn cael eich derbyn fel partner masnachu â'ch cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau, benthycwyr a chwsmeriaid. Gyda'r ffocws ar yr angen i fenthycwyr fod â gallu cynaliadwyedd cryf, gallai peidio â bod ag ymagwedd sy'n ymwybodol o'r hinsawdd tuag at eich busnes achosi i chi gael gwrthod am fenthyciad rydych wedi gwneud cais amdano. Bydd hyn, yn ei dro, yn dangos ar eich adroddiad credyd a gallai ostwng eich statws credyd, gan ei gwneud yn anoddach i chi fasnachu'n effeithiol.

Gallai effeithio ar eich sgôr credyd hefyd os byddwch yn gohirio talu credydwyr yn rhan o'ch strategaeth rheoli arian parod, felly dylech bwysu a mesur y manteision a'r anfanteision yn ofalus. Mae hyn yn arbennig o wir os nad yw eich credydwyr wedi cytuno ar delerau talu estynedig ac wedi cyflwyno CCJ i chi – bydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar eich sgôr credyd.

Addasiadau posibl

Yn ogystal â bodloni unrhyw feini prawf gofynnol eraill, gallai sicrhau y gallwch brofi bod eich cais am gyllid wedi'i wneud ag addasu i'r hinsawdd a lliniaru ar ei chyfer mewn golwg, osgoi gwrthod cyllid ac felly diogelu eich statws credyd.

Dylech fonitro eich sgôr credyd eich hun a rhai eich cwsmeriaid a'ch cyflenwyr trwy blatfformau fel Experian, CreditSafe ac ati, fel bod gennych wybodaeth gyfredol i seilio eich penderfyniadau addasu arni.

Efallai bod gennych brosesau diwydrwydd dyladwy da ar waith i wirio sgorau credyd wrth ddechrau busnes â chyflenwr newydd – ond wrth i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ddod yn fwy aml ac yn fwy difrifol, mae'n ddoeth monitro statws credyd cyflenwyr, yn ogystal â chwsmeriaid, yn barhaus.

Gall statws credyd sy'n gostwng fod yn rhybudd cynnar bod eich cyflenwr neu gwsmer mewn sefyllfa fasnachu fregus ac y gallai digwyddiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd eu gwrthio dros y dibyn.

Bydd anallu cyflenwr allweddol i fasnachu yn effeithio'n uniongyrchol ar eich busnes chi a gall naill ai eich gadael heb ddeunyddiau crai neu'n gorfod dod o hyd i ddewisiadau eraill ar fyr rybudd mewn marchnad dynn.

Mae amrywiaeth o gwmnïau'n cynnig cyfleusterau i wirio sgorau credyd neu wasanaethau monitro â thâl, sy'n eich galluogi i greu dangosfwrdd i olrhain busnesau sydd o ddiddordeb.

Cliciwch y logos am fwy o wybodaeth.



CreditFocus

creditsafe



Hyd yn oed mewn argyfwng, cofiwch 'gymhennu' eich cyfrifon, yn enwedig yw eich cyfrifon statudol yn ddyledus i Dŷ'r Cwmnïau. Fel arfer, bydd eu cyflwyno'n hwyr yn arwain ar eich sgôr credyd a'ch terfyn credyd yn gostwng i sero.

Peidiwch â gadael i anghydfodau ynghylch taliadau fynd allan o reolaeth. Gall CCJ ar gyfer dyled fach hyd yn oed arwain at ostyngiad mawr i'ch sgôr credyd, a allai boeni eich credydwy'r eraill a fydd wedyn, yn eu tro, yn tynnu telerau yn ôl gan nad ydynt o'r farn eich bod yn risg ddiogel mwyach.


Bydd benthycwyr yn poeni am fuddsoddi mewn busnesau sydd â CCJau yn eu herbyn a/neu sgôr credyd sy'n gostwng neu fenthycha iddynt. Gallai fod yn well setlo dyled na dioddef y canlyniadau.

Diogelu penderfyniadau ariannol at y dyfodol


Efallai y bydd eich asesiadau risg hinsawdd yn eich arwain i'r casgliad y gallai fod yn ddoeth cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu eich busnes rhag digwyddiadau hinsawdd annisgwyl neu straen tymor hwy.

Gallai hyn sbarduno'r angen i chi gynnal dadansoddiad cost a budd yn seiliedig ar yr hinsawdd. Gall ymddangos yn anodd cyfiawnhau gwario ar addasiadau hinsawdd pan mae gennych lawer o flaenoriaethau busnes eraill, mae'n siŵr.

Fodd bynnag, amlygodd ABI (Cymdeithas Yswirwyr Prydain), yn 2023 yn unig, fod busnesau yn y DU wedi hawlio tua £443 miliwn ar eu hyswiriant oherwydd difrod tywydd⁴, tra'r oedd colledion economaidd o eithafion tywydd a hinsawdd yn yr UE yn fwy na hanner triliwn ewro rhwng 1980 a 2021. Mae hyn yn pwysleisio pan mae angen rhoi mesurau addasu ar waith ar frys ac yn dangos sut y gall peidio â gweithredu fod yn gostus yn y tymor hir.



Scenario **without** (additional) adaptation investments



Dadansoddiad cost a budd


Trwy gynnal dadansoddiad cost a budd trylwyr cyn gynted â phosibl, gallwch wneud penderfyniadau gwybodus i wella hyblygrwydd a lleihau effaith newid hinsawdd.

Mae dadansoddiad cost a budd ar gyfer addasu i newid hinsawdd yn cynnwys asesu'r manteision economaidd a chost mesurau addasu, o gymharu â pheidio â chymryd unrhyw gamau gweithredu.

Y manteision yw'r costau difrod a fydd yn cael eu hosgoi neu'r manteision cronedig ar ôl mabwysiadu'r mesurau addasu a'u rhoi ar waith.

Y costau addasu yw'r costau cynllunio, paratoi, hwyluso a gweithredu mesurau addasu, gan gynnwys costau trawsnewid.

Scenario **with** (additional) adaptation investments



Ffordd y tu allan i Ganolfan Dreftadaeth
Gŵyr, Abertawe, wedi'i rhwystro oherwydd
llifogydd ar ôl Storm Ciarán - Tachwedd 2023
Awdur: Phil Rees - Ffynhonnell: Alamy

Mynd i'r afael â'ch dadansoddiad cost a budd ar gyfer addasu i'r hinsawdd – camau ac ystyriaethau allweddol:

1. Deall y cyd-destun:

- **Effaith newid hinsawdd:** Defnyddiwch y wybodaeth am risgiau hinsawdd a gafwyd trwy'r hyfforddiant hwn i nodi'r risgiau penodol sy'n effeithio ar eich busnes neu'ch sector chi (e.e. efallai bod eich ffatri wedi'i lleoli mewn gorlifdir neu efallai bod eich prif gyflenwyr mewn ardaloedd sychder).
- **Mesurau addasu:** Nodwch gamau gweithredu posibl i liniaru'r risgiau hyn (e.e. symud safle, adeiladu amddiffynfeydd, newid cyflenwyr).

2. Asesu costau:

- **Costau uniongyrchol:** Cyfrifwch gostau mesurau addasu (e.e. adeiladu seilwaith, cynnal a chadw, costau gweithredu).
- **Costau anuniongyrchol:** Ystyriwch gostau eilaidd, fel treuliau gweinyddol.
- **Costau cyfleoedd:** Gwerthuswch y cyfaddawdau rhwng gwahanol opsiynau addasu.

3. Gwerthuso'r manteision:

- **Colledion a osgowyd:** Aseswch y manteision trwy gyfrifo'r colledion a osgowyd, gan gynnwys difrod uniongyrchol ac anuniongyrchol i seilwaith, asedau a safle masnachu.
- **Allosod manteision:** Un dull o amcangyfrif manteision addasu yw cymharu'r colledion gweddilliol dros gyfnod â'r rhan mewn sefyllfa ddamcaniaethol lle nad oes mesurau addasu ar waith.
- **Effeithiau ategol:** Ystyriwch fanteision yn ymwneud â bioamrywiaeth, ansawdd aer, rheoli dŵr, allyriadau nwyon tŷ gwydr a lles staff.

I gynnal y dadansoddiad cost a budd, cyfrifwch gyfanswm y costau a chyfanswm y buddion a chymharu'r ddau werth i benderfynu a yw'r buddion yn gorbwyso'r costau.

Enghraifft syml o ddadansoddiad cost a budd ar gyfer addasu i'r hinsawdd:

Flood Barrier Protection	Year 1	Year 2	Year 3	Year 4	Year 5	Total
BENEFITS	£k	£k	£k	£k	£k	£k
Cost Savings	£ 2	£ 2	£ 2	£ 2	£ 2	£ 10
Cost Avoidance	£ 3	£ 5	£ 7	£ 9	£ 11	£ 35
Revenue	£ -	£ 3	£ 4	£ 5	£ 6	£ 18
Other	£ -	£ -	£ 6	£ -	£ -	£ 6
Total Benefits	£ 5	£ 10	£ 19	£ 16	£ 19	£ 69
COSTS						
Non-Recurring	£ 50	£ -	£ -	£ -	£ -	£ 50
Recurring	£ 2	£ 2	£ 2	£ 2	£ 2	£ 10
Total Costs	£ 52	£ 2	£ 2	£ 2	£ 2	£ 60
Net Benefit or Cost	-£ 47	£ 8	£ 17	£ 14	£ 17	£ 9

Mae cydnabod pa mor ddybryd y mae risg hefyd yn bwysig o ran pa mor gyflym y gall costau peidio â gweithredu effeithio ar fusnes a dod yn gostau sylweddol.

Byddai model syml yn helpu i fframio maint y mater, ond gallai mynd ymhellach a sefydlu 'gwerth presennol net' (NPV) y mater, lle caiff gwerth dros amser ei ystyried, helpu i benderfynu pa brosiectau i'w symud ymlaen pan fydd cyllid cyfyngedig ar gael, gan olygu bod angen blaenoriaethu gwariant.

Achlysuron pwysig eraill pan ddylai risgiau a chyfluoedd hinsawdd gael eu hymgorffori yn eich penderfyniadau yw pan fyddant yn ymwneud â'ch buddsoddiadau a'ch gwariant cyfalaf.


Wrth i amllder a difrifoldeb effeithiau newid hinsawdd gyflymu, mae angen i'ch busnes ystyried goblygiadau digwyddiadau hinsawdd posibl a phatrymau galw cyfnewidiol defnyddwyr wrth gynllunio a buddsoddi ar gyfer twf.

Mae methu ystyried risgiau newid hinsawdd pan fyddwch yn buddsoddi mewn eitemau fel safleoedd newydd, adeiladu strwythurau newydd, peiriannau, offer, seilwaith TGCh a systemau busnes, yn eich gadael mewn perygl o'r asedau hyn yn mynd yn "darfod" ac yn methu cyfrannu at lwyddiant y busnes mwyach.

Ffocws ar: Asedau Darfodol oherwydd yr Hinsawdd

Climate stranded assets are assets that suffer unanticipated or premature write-downs, devaluations, or conversions to liabilities due to climate change related impacts.

Risgiau asedau darfodol



Mae enghreifftiau o'r asedau "darfodol" hyn yn cynnwys:

- Asedau sy'n cael eu "gadael ar ôl" â hen dechnoleg wrth i'r cwmni drawsnewid i gynhyrchu carbon isel ac wrth i gyflenwadau ynni symud oddi wrth danwyddau ffosil yn gyffredinol.
- Asedau sydd mordafrudi'wrhedegfeleubodyngwneudcynhyrchioneichcwmni'nanghystadleuol; gallai hyn fod oherwydd nifer o ffactorau, fel costau ynni cynyddol, rhwymedigaethau prisio carbon neu faint o ddŵr a llafur sydd eu hangen ar gyfer glanhau er mwyn sicrhau hylendid.
- Asedau a brynwyd i wneud cynhyrchion sy'n mynd yn amhoblogaidd ymhlith defnyddwyr wrth i batrymau galw am gynhyrchion newid wrth ymateb i newidiadau hinsawdd, ac na ellir eu hailddefnyddio i wneud cynhyrchion i fodloni tueddiadau galw newydd.
- Gallai asedau ddod yn ddiangen os cawsant eu prynu i brosesu deunyddiau crai penodol nad ydynt ar gael yn ddibynadwy mwyach oherwydd effeithiau'r hinsawdd ar eich cadwyn gyflenwi.
- Neu gallai'r fformatau pecynnu y mae eich llinellau pecynnau yn ymdrin â nhw gael eu gwrthod gan fanwerthwyr a defnyddwyr fel rhai anghynaliadwy a drwg i'r amgylchedd a gallai eich cystadleuwyr ddwyn eich gwerthiannau os gallent becynnu mewn fformatau mwy ffafriol.
- Gallai newidiadau i'r amgylchedd ffisegol achos 'effeithiau cronig'. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Llifogydd mynych neu suddo sylweddol sy'n gwneud eich safle'n anhyfyw.
 - Colli gwerthiannau oherwydd bod eich cwsmeriaid allweddol yn dibynnu ar dwristiaeth a bod digwyddiadau hinsawdd anffafriol yn lleihau nifer yr ymwelwyr, pan fydd defnyddwyr yn aros gartref neu'n dewis lleoliadau eraill.
 - Ardaloedd tyfu cyfnewidiol a lefelau'r môr yn codi, sy'n creu asedau darfodol yn y sector amaethyddol, gan arwain at brinder cyflenwadau a chynyddu costau'r deunyddiau crai y mae eich asedau chi wedi'u sefydlu i'w prosesu.
- Gallai effeithiau hinsawdd ffisegol aciwt danseilio gwerth eich asedau. Er enghraifft, sychder yn arwain at golli cyflenwadau dŵr i'ch safle, tywydd poeth yn golygu na all eich staff weithio'n gynhyrchol gan nad oes modd oeri eich gweithfannau'n ddigonol neu fod eich amgylcheddau storio a phrosesu â thymheredd rheoledig yn cael eu peryglu.

Am yr holl resymau hyn, mae bod ag ymagwedd ddoeth tuag at yr hinsawdd a rhoi ystyriaeth lawn i ffactorau hinsawdd posibl wrth wneud eich cynlluniau buddsoddi yn hollbwysig er mwyn osgoi "rhwymo" problemau yn y dyfodol a bod ag asedau darfodol oherwydd yr hinsawdd yn y pen draw.

Dod o hyd i gyllið ar gyfer addasiadau hinsawdd

Cyllid gwyrdd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae categori newydd o gyllid busnes wedi dod i'r amlwg o'r enw "cyllid gwyrdd". Mae Llywodraeth y DU wedi'i ddiffinio fel: "unrhyw weithgarwch ariannol strwythuredig – boed yn gynnyrch neu'n wasanaeth – sydd wedi'i greu i sicrhau canlyniad amgylcheddol gwell".

O fewn y math hwn o gyllid, mae "cyllid asedau gwyrdd" wedi'i lunio i ariannu prynu offer a cherbydau i'ch helpu i gyflawn eich nodau cynaliadwyedd.

Gallai cyllid gwyrdd fod ar gael ar gyfer addasiadau hinsawdd o ffynonellau cyllid cyhoeddus a masnachol.



Cyllid cyhoeddus:

Gallai cyllid cyhoeddus gael ei ddarparu gan sefydliadau neu gronfeydd fel [Innovate UK](#), rhaglen SMART Llywodraeth Cymru neu'r [Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd](#).

Mae Banc Datblygu Cymru yn goruchwyllo [Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd](#), sydd â'r nod o leihau allyriadau carbon a helpu busnesau i arbed ar filiau ynni yn y dyfodol. Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyfraddau llog sefydlog gostyngol a chyfalaf amyneddgar (buddsoddiad hirdymor, ar ffurf dyled neu ecwiti, lle mae twf cynaliadwy yn cael blaenoriaeth ochr yn ochr ag enillion ariannol).

Mae ffynonellau eraill o gyllid cynaliadwy yn cynnwys:

[Robert Owen Community Bank](#) [Triodos Bank](#)

Banciau'r stryd fawr Buddsoddwyr

effaith

Cyllid cadwyn gyflenwi

Cynlluniau Parhad Busnes

Mae'r annisgwyl yn digwydd! Yn unol ag unrhyw fusnes, gallai eich cwmni ddioddef digwyddiad argyfwng a allai amrywio o fach i drychinebus. Mae bygythiadau posibl yn amrywio o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, fel llifogydd, difrod storm neu danau gwyllt, i seiberdroseddau, methiannau seilwaith neu ddifrod maleisus.

Mae cynlluniau parhad busnes yn eich helpu i barhau i weithredu pe byddai'r trychinebau hyn yn digwydd. Ni all eich busnes ddibynnu ar yswiriant yn unig, oherwydd mae'n annhebygol y bydd yn talu holl gostau'r aflonyddwch neu'n eich amddiffyn rhag colli cwsmeriaid i'ch cystadleuwyr.

Mae eich cynllun parhad busnes (CPB) wedi'i lunio i amddiffyn y bobl a'r asedau yn eich busnes a sicrhau y gall y ddau weithredu'n gyflym ac yn effeithiol os, a phan, bydd trychineb yn digwydd.

Pam creu cynllun ymlaen llaw?

Dylech greu eich cynlluniau gweithredu a nodi mesurau wrth gefn ymhell ymlaen llaw, oherwydd mae manteision enfawr i wneud hynny yng nghanol tawelwch cymharol gweithrediadau arferol.

Bydd yn eich ysgogi i feddwl am yr hyn y bydd ei angen pe byddai'r gwaethaf yn digwydd a bod digwyddiad hinsawdd annisgwyl neu argyfwng arall yn cael effaith negyddol ar weithrediadau eich busnes.

Nid canol argyfwng yw'r amser gorau i:

- Gasglu gwybodaeth bwysig.
- Dod o hyd i fanylion cyswllt allweddol.
- Pwyso a mesur yr opsiynau a phenderfynu ar y camau gweithredu gorau.

Trwy gynllunio ymlaen llaw, pan nad ydych yn profi argyfwng llawn straen, gallwch:

- Ystyried eich opsiynau'n bwyllog ac yn fanwl.
- Cynnwys rhanddeiliaid a cheisio cyngor arbenigol.
- Llunio cynlluniau wrth gefn.
- Paratoi adnoddau.
- Hyfforddi staff a phrofi gweithdrefnau.

Gall yr holl weithgareddau rydych yn ymgymryd â nhw wrth i chi fabwysiadu dull sy'n ymwybodol o'r hinsawdd gyfrannu at eich gwaith o lunio cynllun parhad busnes trylwyr a chadarn.

Mae templed cynhwysfawr y gellir ei olygu ar gael i'ch helpu â hyn, sy'n nodi elfennau'ch cynllun mewn ffordd drefnus a chyraeddadwy.

Defnyddiwch y templed cynhwysfawr hwn, y gellir ei olygu, i'ch helpu i greu eich cynllun parhad busnes.

Camau eich cynllun parhad busnes


Dylai eich cynllun parhad busnes gydnabod gwahanol gamau'r digwyddiad a'ch adferiad, gydag ystyriaethau a chamau gweithredu wedi'u cwmpasu'n briodol.

Mae diwrnod y digwyddiad yn cynrychioli cam 1, a bydd yn cynnwys:

- Crynodeb o'ch ymateb uniongyrchol a/neu frys
- Rhestr wirio ar gyfer eich camau gweithredu di-oed

Mae nifer o gamau adfer yng nghanol 2:

- 1 diwrnod ar ôl y digwyddiad.
- 2 i 7 diwrnod ar ôl y digwyddiad.
- 8 i 14 diwrnod ar ôl y digwyddiad.



Yn ystod y cyfnod hwn, bydd eich cynllun yn cwmpasu'r isod wrth i amser fynd yn ei flaen:

- Nodi'r rolau, y bobl, y prosesau, y gwasanaethau, y cyflenwadau a'r cwsmeriaid sy'n hanfodol er mwyn adfer
- Eich cynllun cyfathrebu, y mae angen ei gyflawni trwy gydol y camau ymateb brys ac adfer

Cam 3 – Adferiad tymor hwy ar ôl y digwyddiad


Yma, bydd angen i'ch busnes ystyried yr opsiynau ar gyfer y ffordd orau ymlaen.

Diwrnod y digwyddiad

Er enghraifft, yn eich cynllun ar gyfer diwrnod y digwyddiad, gallai'ch rhestr wirio ar gyfer camau gweithredu di-oed gynnwys y ffactorau sydd wedi'u hamlinellu isod:

1 Rhestr wirio ar gyfer camau gweithredu di-oed

- ✓ Nodwch ba fath o ddigwyddiad ydyw ac a oes angen galw'r gwasanaethau brys
- ✓ Penderfynwch a oes angen i chi roi eich Cynllun Parhad Busnes ar waith
- ✓ Cofnodwch yr holl gamau gweithredu a phenderfyniadau y byddwch yn eu gwneud



Diwrnod 1 i 14 ar ôl y digwyddiad

Gan symud ymlaen i'r diwrnod cyntaf ar ôl digwyddiad sydd wedi atal eich gweithrediadau neu wedi amharu'n ddifrifol arnynt, bydd llawer i'w ystyried a'i asesu, ond trwy ystyried 4 ffactorau allweddol ymhell ymlaen llaw, byddwch yn creu strwythur i'ch cefnogi pan fydd argyfwng ar ei anterth.

Trwy nodi'n ofalus ymlaen llaw pwy ddylai fod yn gwneud penderfyniadau pwysig ynghylch eich camau gweithredu a chytuno pwy fydd yn gyfrifol am ba dasgau, byddwch yn helpu i osgoi dryswch, mynd i gostau diangen, dyblygu ymdrechion, colli terfynau amser hollbwysig neu gamau pwysig yn methu digwydd ar ôl digwyddiad.

Mae ffactorau i'w hystyried fel a ganlyn:

1

Beth yw rhannau hanfodol y busnes – y prosesau a'r offer – sydd eu hangen cyn pen 24 awr ar ôl y digwyddiad?

- Pa offer y mae angen iddo fod yn weithredol unwaith eto cyn pen 24 awr?
- Ar gyfer beth y mae ei angen?
- A oes dewis arall?
- Pwy yn benodol fydd yn trefnu hyn?

2

Beth yw'r rolau hanfodol a phwy yw'r bobl hanfodol sydd eu hangen cyn pen 24 awr ar ôl y digwyddiad?

- Beth yw'r rôl hanfodol?
- Pwy sydd â'r rôl honno?
- Beth yw'r sgiliau neu'r wybodaeth angenrheidiol?
- Pam mae angen y sgiliau hynny?
- A all y rôl hon gael ei chyflawni o leoliad gwahanol neu gan rywun gwahanol, yn ôl yr angen?
- Pwy yn benodol fydd yn cydlynu hyn?

3

Beth yw'r cyflenwadau neu'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen cyn pen 24 awr ar ôl y digwyddiad?


- Beth yw'r gwasanaeth neu'r cyflenwad hanfodol?
- Ar gyfer beth y mae ei angen?
- Pwy sy'n ei ddarparu ar hyn o bryd?
- A oes dewis arall?
- A allech wynebu cosb / rhwymedigaeth os na allwch ei dderbyn?
- Pwy yn benodol fydd yn trefnu'r cyflenwadau a'r gwasanaethau hyn?

4

Pwy yw eich cwsmeriaid hanfodol a fydd angen danfoniadau o'ch cynhyrchion o hyd cyn pen 24 awr ar ôl y digwyddiad?

- Enw a manylion cyswllt cwsmeriaid?
- Pa gynhyrchion/SKUau sy'n cael eu cyflenwi?
- A oes gennych stoc sy'n ddiogel o ran bwyd ac sy'n cydymffurfio â'r fanyleb ar gael i'w gyflenwi?
- Beth allai'r canlyniadau fod os na chânt eu cyflenwi?
- Pwy yn benodol fydd yn trefnu danfoniadau?

Yna, dylech ailadrodd, gan ystyried y ffactorau hyn ar gyfer pob cam adfer fel y nodir isod.



1. Prosesau ac offer hanfodol sydd eu hangen cyn pen:

2-7 diwrnod ac
8-14 diwrnod ar ôl y digwyddiad

2. Rolau a phobl hanfodol sydd eu hangen cyn pen:

2-7 diwrnod ac
8-14 diwrnod ar ôl y digwyddiad

3. Cyflenwadau neu wasanaethau hanfodol sydd eu hangen cyn pen:

2-7 diwrnod ac
8-14 diwrnod ar ôl y digwyddiad

4. Cwsmeriaid hanfodol a fydd angen danfoniadau o'ch cynhyrchion o hyd cyn pen:

2-7 diwrnod ac
8-14 diwrnod ar ôl y digwyddiad

Cynlluniau cyfathrebu

Mae angen cyflwyno cynlluniau cyfathrebu cadarn trwy gydol yr holl gamau ymateb brys ac adfer er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae hyn yn bwysig iawn gan y gall sibrydion a chamwybodaeth rwystro eich adferiad yn sylweddol a pheryglu diogelwch eich busnes yn y dyfodol, hyd yn oed.

Mae rhai o'r rhanddeiliaid y bydd angen i chi gyfathrebu â nhw wedi'u hawgrymu isod. Mae'r Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd yn darparu rhagor o wybodaeth, cyngor a thempledi i'ch helpu i gynllunio cyfathrebu rhag ofn y bydd digwyddiad critigol ym Modiwl 7: Staff a Darparwyr Gwasanaethau a Modiwl 8: Cwsmeriaid a Defnyddwyr.

Staff	Cwsmeriaid	Darparwyr Cyllid	Cyflenwyr, Darparwyr Gwasanaethau a Chontractwyr
<p>Cefnogwch staff y gallai'r digwyddiad neu'r argyfwng fod wedi effeithio arnynt yn gorfforol ac/neu'n feddyliol neu sy'n teimlo'n ynysig.</p> <p>Mae templed bregusrwydd staff yn helpu i nodi unrhyw un a all fod angen cymorth penodol.</p>	<p>Rhowch wybod am newidiadau i leoliad / oriau agor / oriau gwaith; newidiadau o ran argaeledd cynhyrchion; unrhyw oedi disgwyliadau i ddanfoniadau neu i ofyn am newidiadau i delerau talu.</p>	<p>Efallai y bydd angen sicrwydd ar fenthycwyr, cyfranddalwyr, buddsoddwyr, cyllidwyr grantiau neu ddarparwyr cyllid eraill ynghylch eich ymrwymadau cyfredol ac anogaeth i ariannu eich adferiad.</p>	<p>Rhowch wybod am newidiadau i drefniadau presennol, sicrhewch eich bod yn cael blaenoriaeth ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau sydd eu hangen ar gyfer eich adferiad, aildrafodwch delerau ac amodau i helpu â'ch treuliau.</p>

Y cynllun adfer tymor hwy ar ôl digwyddiad


Fel busnes, bydd angen i chi benderfynu sut i gwblhau eich adferiad ac efallai na fydd hyn yn hollol amlwg tan ar ôl y digwyddiad.

Fodd bynnag, gallech greu senarios "Beth petai?" a rhagolygon wedi'u seilio ar wahanol ganlyniadau, y gellid cynnal prawf straen arnynt wedi hynny:

- Canlyniad pesimistaidd
- Canlyniad realistig
- Canlyniad optimistaidd

Ai dychwelyd i sut yr oeddech cyn y digwyddiad yw eich nod ar gyfer adfer? Neu efallai yr hoffech geisio dod o hyd i 'normal newydd'? Gallai'r opsiynau gynnwys y rhai sydd wedi'u rhestru isod a bydd angen strategaethau, cyllidebau a rhagolygon gwahanol ar gyfer pob un ohonynt:

- Ailddechrau ac adfer o'r un lefel o weithrediadau ag yr oeddech cyn y digwyddiad.
- Achub ar y cyfle i ailadeiladu mewn fformat mwy datblygiad nag o'r blaen.
- Newid a dod yn ôl ar ffurf wahanol.
- Lleihau eich maint i adfer i weithrediad llai, a allai fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn y tymor byr.
- Ymadael â'r maes busnes yr oeddech chi ynddo o'r blaen neu roi'r gorau i fasnachu'n gyfan gwbl.



Tywydd sy'n newid yn gyflym uwchben
Blaenau Ffestiniog, Cymru.
Awdur: Patrick O'Neill / Source: stock.adobe.com


Rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Dyletswyddau cyfarwyddwyr

Mae Deddf Cwmnïau 2006⁵ yn gosod nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfarwyddwyr cwmnïau.



Sut mae'r hyfforddiant hwn yn helpu:



Mae mabwysiadu dull sy'n ymwybodol o'r hinsawdd wrth reoli eich busnes yn berthnasol iawn i ddau o brif ddyletswyddau cyfarwyddwyr, sef:

- Dyletswydd i hyrwyddo llwyddiant y cwmni. O fewn y ddyletswydd hon, rhaid i gyfarwyddwyr ystyried canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniad yn y tymor hir, effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd, yn ogystal ag ystyriaethau eraill.
- Dyletswydd i arfer gofal, sgil a diwydrwydd rhesymol. Mae'r ddyletswydd hon yn ystyried: "Y wybodaeth, sgil a'r profiad cyffredinol y gellir eu disgwyl yn rhesymol gan unigolyn sy'n cyflawni'r swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni gan y cyfarwyddwr yn gysylltiedig â'r cwmni" ac "Y wybodaeth, sgil a'r profiad cyffredinol sydd gan y cyfarwyddwr."

Felly, mae cyfarwyddwyr mewn perygl o dorri eu ddyletswyddau a'u rhwymedigaethau os na fyddant yn deall, yn ystyried neu'n lleihau effaith amgylcheddol cwmni neu'n addas i risgiau hinsawdd.

Er nad yw mwyafrif helaeth y cwmnïau yng Nghymru dan drefn datgelu neu adrodd gorfodol o ran risgiau hinsawdd, gallai hyn newid yn y dyfodol ac, fel busnes sy'n ymwybodol o'r hinsawdd, byddwch wedi'ch paratoi'n well ar gyfer hyn.

Y Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn rhoi dyletswydd gofal gyfreithiol ar gyflogwyr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt asesu risgiau i staff ac unrhyw un arall ar eu safle neu sy'n gweithio dan eu cyfarwyddwyr, a rhoi rheolaethau ar waith i'w diogelu.

Mae hyn yn cynnwys lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig ag amodau tywydd ac un enghraifft o hyn yw'r gofyniad i ddarparu tymheredd gweithio rhesymol.

Er nad oes unrhyw dymheredd isaf ac uchaf wedi'u diffinio yn y ddeddf, mae'r [Cod Ymarfer Cymeradwy](#) yn Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) yn awgrymu y dylai'r tymheredd isaf ar gyfer gweithio dan do fod o leiaf fel a ganlyn, fel arfer:

- 16°C neu
- 13°C os yw llawer o'r gwaith yn cynnwys ymdrech gorfforol egnïol

O ran tymhereddau uchaf, nid oes tymheredd gweithio uchaf penodol. Fodd bynnag, oherwydd bod gwres yn cael ei ystyried yn berygl a bod gan bob gweithiwr hawl i amgylchedd lle mae risgiau i'w hiechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'n briodol, rhaid asesu a mynd i'r afael â'r risgiau hyn. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn darparu cyngor⁶ a rhestr wirio gynhwysfawr ar gyfer straen gwres at y diben hwn. Mae'r blwch ar y dde yn darparu dolen i'r rhestr wirio hon.

I gefnogi cwmplas llawn gofynion y ddeddf, yn 2024, cydnabu Cyngor Diogelwch Prydain y risgiau cynyddol i'r gweithle o ganlyniad i newid hinsawdd ac anogodd "pob cyflogwr i gynnal dadansoddiad o effaith risg hinsawdd ar eu busnesau, gan gynnwys tywydd eithafol, cynnydd i'r risg fiolegol a'r risg gynyddol o ddamweiniau"⁷.



Eich honiadau o ran cynnyrch a marchnata

O ran unrhyw honiadau ynghylch cynaliadwyedd neu effeithiau cadarnhaol ar yr amgylchedd a'r hinsawdd yr hoffech eu gwneud am eich busnes, brandiau a'ch cynhyrchion eich hun, bydd angen i chi gofio'r egwyddor graidd sy'n sail i bob cyfraith diogelu defnyddwyr – sef na ddylai unrhyw ddatganiadau a wnewch fod yn anwir neu'n gamarweiniol i ddefnyddwyr.

Felly, er y gallech fod eisiau rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw addasiadau hinsawdd a wnewch ac, yn wir, gallai hyn gynnig cyfleoedd i chi gynyddu eich gwerthiannau, dylech fod yn drylwyr o ran gallu profi bod yr hyn rydych yn ei ddweud yn wir, pe byddech yn cael eich herio i ddarparu tystiolaeth i gadarnhau eich honiadau.

Wrth gwrs, yn ogystal â methu cyflawni eich rhwymedigaethau cyfreithiol, mae gwneud honiadau ffug yn niweidiol i'ch enw da, ymhlith eich cwsmeriaid uniongyrchol a defnyddwyr terfynol eich cynhyrchion. Mae cwmnïau yr ystyrir eu bod yn "gwerthu nwyddau gwyrddgalchu" yn dueddol o gael sylw negyddol a gall cyfryngau cymdeithasol negyddol fod yn gostus o ran eich gwerthiannau a'ch hygyrdd.

Yn y DU, mae gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y brif rôl mewn diogelu defnyddwyr rhag arferion busnes annheg a thelerau contract annheg.

Gall fynd i'r llys i orfodi cyfraith diogelu defnyddwyr ac mae ganddo'n pŵer i ddiogelu busnesau rhag marchnata camarweiniol gan fusnesau eraill.

Mae CMA wedi creu'r Cod Hawliau Gwyrdd sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer gwneud honiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd am nwyddau a gwasanaethau.

Mae wedi sefydlu'r 6 egwyddor ar y dde ac wedi datblygu cyfres o gwestiynau y dylai pob busnes ofyn iddyn nhw'u hunain am unrhyw honiad y maent yn bwriadu ei wneud.

Mae gan [wefan CMA ar gyfer Honiadau Gwyrdd](#) gyngor glir a defnyddiol iawn am honiadau sy'n cydymffurfio â'r gyfraith neu beidio, ynghyd ag astudiaethau achos sy'n cynnwys enghreifftiau o gynhyrchion bwyd.

Mae cyngor a chymorth yn ymwneud â honiadau ar gael yn eich ardal chi gan eich adran Safonau Masnach leol hefyd, a gellir rhoi cyngor dan [gynllun partneriaethau cyfreithiol Awdurdodau Sylfaenol](#).

Cliciwch y ddolen i gael rhestr wirio ddefnyddiol y gellir ei golygu, wedi'i seilio ar gwestiynau CMA, a fydd yn eich helpu i gasglu tystiolaeth neu ddiffinio camau cywirol yn ymwneud ag unrhyw honiadau 'gwyrdd'.



[Cliciwch yma am restr wirio honiadau gwyrdd](#)

Perthnasoedd cytundebol

Un addasiad pellach y gallech fod eisiau ei ystyried yw holi eich cyflenwyr a'ch darparwyr gwasanaethau yn fanylach am eu lefel o barodrwydd ar gyfer newid hinsawdd.

Efallai yr hoffech roi cymalau yn eich contractau sy'n gorfodi gwerthwyr i sganio'r gorwel yn weithredol am risgiau i'r gadwyn gyflenwi a rhoi gwybod i chi am unrhyw risgiau hinsawdd hysbys mewn ysbeidiau rheolaidd, cytûn.

Gallech hefyd ofyn am warantau ac indemniadau hinsawdd ganddynt, i'ch diogelu rhag iddynt fethu cyflenwi i chi, ynghyd â sefydlu eich safle fel un sy'n cael blaenoriaeth o ran cyflenwi deunyddiau, yn enwedig os yw argaeledd yn brin.

Efallai yr hoffech ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr ddarparu cynllun parhad cyflenwi. Os bydd yn newid y rhanbarth neu'r wlad y mae'n cyrchu ohono/ohoni i ddilyn tymhoroldeb cynaeafu mewn gwahanol leoliadau, gallai hyn gynnwys calendr cyrchu. Efallai y gallech ei gwneud yn ofynnol iddynt roi eu cynlluniau wrth gefn i chi, rhag ofn y bydd y cyflenwad o'u prif darddiad yn cael ei gwtogi, y bydd ymyrraeth iddo neu na fydd ar gael o gwbl mwyach.

Caiff rhai enghreifftiau o gwestiynau holiadur posibl a chymalau cytundebol sy'n cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris, gofynion *Race to Zero* ac Egwyddorion Rhydychen ar gyfer Gwrthbwysio Carbon sy'n gydnaws â Sero Net eu hawgrymu gan [The Chancery Lane Project](#).

Mesurau diogelu ariannol yn erbyn “gwyrddgalchu”

Efallai yr hoffech gael sicrwydd hefyd, os ydych yn defnyddio cynnyrch buddsoddi sy’n honni bod ganddo gymwysterau cynaliadwyedd cryf, bod yr honiadau hyn yn gadarn.

Mae mesurau diogelu newydd wedi’u cyflwyno yn erbyn “gwyrddgalchu” mewn marchnadoedd ariannol yn y DU er mwyn sicrhau y gellir profi unrhyw honiadau a wneir. Mae manylion ar gael gan yr [Awdurdod Ymddygiad Ariannol](#).

Sut gallai deddfwriaeth newid hinsawdd esblygu

Mae deddfwriaeth newid hinsawdd yn debygol o gynyddu wrth i’r pwysau i addasu a lliniaru ddod yn gryfach fyth. Ochr yn ochr â hyn, bydd mwy o rwymedigaethau cyfreithiol ar fusnesau i adrodd ar eu gweithgareddau a’u cynlluniau gweithredu sy’n gysylltiedig â’r hinsawdd.

Er enghraifft, mae ymchwiliadau fel yr adroddiad “*Impact of climate change and biodiversity loss on food security*”, a gyhoeddwyd gan Dŷ’r Arglwyddi ym mis Medi 2022⁸ yn codi lefelau pryder ynghylch risgiau newid hinsawdd i rannau allweddol o gymdeithas, gan gynnwys y sector bwyd, a gallent sbarduno’n awydd i ddeddfu er mwyn osgoi’r sefyllfaoedd gwaethaf.

Mewn enghraifft arall, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a oedd mewn grym o 2019 hyd 2024 ganllawiau ar y fframwaith i greu Safonau Datgelu Cynaliadwyedd y DU (UK SDS). Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i wneud datgeliadau ar y risgiau a’r cyfleoedd y mae cwmnïau’n eu hwynebu o ran cynaliadwyedd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael mewn arweiniad a gyhoeddwyd yn 2023⁹.

Er y bydd adroddiadau’n canolbwyntio ar y busnesau mwyaf i ddechrau, dros gyfnod, mae’n bosibl y bydd yn ofynnol i fusnesau llai wneud datgeliadau ynghylch risgiau hinsawdd, naill ai oherwydd deddfwriaeth neu gan fod cwsmeriaid masnach yn mynnu’r math hwn o wybodaeth gan eu cadwyn gyflenwi er mwyn iddynt allu cydymffurfio â’r rheoliadau.

Felly, un addasiad y gallech fod eisiau ei sefydlu yw’r arfer o sganio’r gorwel am ofynion cyfreithiol newydd sy’n effeithio ar eich busnes. Gall nodi ffynonellau gwybodaeth credadwy a dibynadwy, a gwirio’r rhain yn rheolaidd neu gofrestru ar gyfer cylchlythyrau neu seminarau ar-lein, fod yn ddefnyddiol iawn. Cyfeiriwch at y wybodaeth am sganio’r gorwel ym Modiwl 5 am fwy o syniadau am yr hyn i gadw golwg amdano a ble y gallai gwybodaeth fod ar gael.

Un ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy ar gyfer y sector bwyd a diod yw IGD (Sefydliad Dosbarthu Nwyddau Groser), sy’n cynnig adroddiadau Safbwynt rheolaidd ar bynciau perthnasol. Er enghraifft, yn 2024, cyhoeddodd “*As food inflation falls, what’s in store for 2024?*”, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am reoleiddio a pholisi ar gyfer y flwyddyn honno.

Yn ôd nesaf:

Bydd Modiwl 7 yr Hyfforddiant Addasu i Newid Hinsawdd a Chydnerthedd yn ystyried sut gall newid hinsawdd effeithio ar eich staff a'ch darparwyr gwasanaethau. Mae'n amlinellu syniadau i nodi pobl fregus a darparu addasiadau priodol a fydd yn eu galluogi i barhau i fod yn aelodau cynhyrchiol o'ch tîm.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ac yn gyfredol ar adeg ysgrifennu. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am ddolenni i wefannau allanol a allai fod wedi torri dros amser.

Gorffennaf 2025

Cyfeiriadau:

¹ Banc Lloegr: [Climate change: what are the risks to financial stability?](#) 10 Ionawr 2019

² Banc Datblygu Cymru: <https://developmentbank.wales/cy/angen-busnes/cynllun-benthyciadau-busnes-gwyrdd>

³ Lexology: Eversheds Sutherland LLP: [UK Government sets out next steps for UK Sustainability Reporting](#) 8 Awst 2023

⁴ ABI (Cymdeithas Yswirwyr Prydain): [Weather damage insurance claims worst on record](#) 15 Ebrill 2024

⁵ Llywodraeth y DU: [Deddfwriaeth](#)

⁶ Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch: [Temperature in the workplace](#)

⁷ Cyngor Diogelwch Prydain: [Employers must act now to protect workers from effects of climate change, as 1.5C threshold breached](#) 8 Chwefror 2024

⁸ Senedd y DU: Tŷ'r Arlwyddi: [Impact of climate change and biodiversity loss on food security](#) Medi 2022

⁹ Llywodraeth y DU: [UK Sustainability Disclosure Standards](#) Awst 2023